Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Mrs Esyllt Williams
Ysgol Gynradd Beddgelert
Beddgelert
Gwynedd
LL55 4UY

17/04/2025

Annwyl Mrs Williams

**Ymweliad Interim:** Mawrth 2025

Diolch am y croeso cynnes dderbyniodd y tîm yn ystod yr ymweliad interim diweddar. Bu'r tîm yn ystyried y cynnydd mae'r ysgol wedi ei wneud wrth ymateb i ddau o'r argymhellion o arolwg craidd mis Tachwedd 2023. Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i drafod gydag arweinwyr, athrawon a staff cymorth, gan ystyried y modd mae pawb wedi eu cynnwys wrth addasu eich dulliau addysgu ac asesu fel ymateb i'r argymhellion. Cawsom gyfle i graffu ar waith disgyblion, a sgwrsio gyda nhw am eu profiadau dysgu.

Isod, mae crynodeb o gynnydd gyda'r argymhellion hynny. Hyderwn bydd y sylwadau yn fuddiol wrth i chi barhau i ddatblygu'r ddarpariaeth yn yr ysgol.

## Ffocws yr ymweliad

### Darparu gweithgareddau sy'n cefnogi disgyblion i ymestyn eu medrau hyd eithaf eu gallu wrth eu cymhwyso mewn gweithgareddau dysgu annibynnol.

- Mae arweinwyr a staff wedi gweithredu'n gydwybodol wrth graffu ar eu dulliau cynllunio ac addysgu er mwyn cynnig cyfleodd buddiol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau'n gynyddol annibynnol. Mae'r pennaeth yn cynnig cyfleodd gwerthfawr i aelodau staff ddatblygu eu medrau arweinyddiaeth, er enghraifft wrth rannu eu harbenigedd ac arwain ar agweddau penodol o'r addysgu.

- Erbyn hyn, mae athrawon a staff cymorth yn cydweithio'n fwriadus er mwyn addasu a gwella'r ddarpariaeth a gynigir i'r disgyblion. Maent yn cyd-gynllunio'n ofalus er mwyn paratoi gweithgareddau dysgu sy'n cysylltu'n bwrpasol â diddordebau'r disgyblion ac yn adeiladu'n llwyddiannus ar eu dysgu blaenorol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ennyn a chynnal diddordeb a pharodrwydd disgyblion i ymgymryd â'u tasgau.
- Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu ac yn magu hyder i wneud penderfyniadau yn gynyddol annibynnol am sut i gyflawni a chyflwyno eu gwaith.
- Mae staff yn hwyluso'r dysgu ac arddangos disgwyliadau uchel o'r disgyblion mewn gwahanol fedrau. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dyfalbarhau'n aeddfed, ac yn gwneud cynnydd da.
- Mae'r pennaeth yn cynnwys staff a llywodraethwyr yn fwriadus wrth werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r cynnydd ym medrau'r disgyblion. Maent yn cynnal teithiau addysgu a dysgu cyson, ac yn craffu ar gynlluniau'r athrawon a gwaith y disgyblion gan ddefnyddio'r canfyddiadau'n bwrpasol i adnabod a gweithredu ar y camau nesaf.

### Darparu adborth i ddisgyblion sy'n eu galluogi i adnabod a gweithredu ar y camau nesaf yn eu dysgu

- Mae'r pennaeth wedi cynnwys y staff a'r llywodraethwyr yn y broses o ddatblygu strategaeth clir ar gyfer gwella'r adborth a gynigir i ddisgyblion.
- Mae staff wedi mynychu hyfforddiant buddiol i ddatblygu eu dealltwriaeth o sut i gynllunio'n fwriadus ar gyfer y camau nesaf yn natblygiad disgyblion. Mae hyn yn ei dro yn cael effaith gadarn ar wella'r ddarpariaeth i gefnogi'r disgyblion i ddatblygu eu medrau. Erbyn hyn, mae disgyblion yn cymryd rhan weithredol wrth benderfynu ar feini prawf llwyddiant gwahanol weithgareddau ac yn gwneud dewisiadau am sut i gyflawni a chyflwyno eu gwaith.
- Mae staff wedi addasu'r cynllun marcio er mwyn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion wella agweddau penodol o'u gwaith. Trwy hyn, mae staff yn cynnig adborth llafar werthfawr i ddisgyblion sydd yn eu hannog i wneud gwelliannau i ansawdd a safon eu gwaith. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth briodol o bwrpas a budd yr adborth, sydd yn ei dro yn cyfrannu at gynnydd wrth iddynt adeiladu ar eu medrau'n llwyddiannus.

Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6612010

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol